# Rheolaeth a gwrthryfel yn yr Hen Dde

**Nicolas Kinloch**

**Roedd llawer mwy o gaethweision na gwynion yno. Felly sut lwyddodd gwynion yr Hen Dde i gadw at gaethwasiaeth cyhyd?**

Sut oedd caethfeistri yn rheoli eu caethweision? Yn ystod Rhyfel Cartref America 1861-65, dyna'r union gwestiwn y gofynnodd Thomas Wentworth Higginson, cadlywydd gwyn **catrawd Undeb** ddu iddo ef ei hun: '... gyda'u gallu i fod yn fentrus a dygn, pam nad oeddent [y caethweision] wedi cadw fflam gwrthryfel ynghyn yn barhaol yn y wlad?'

## Caethweision yn gwrthryfela

Mewn gwirionedd, bu sawl gwrthryfel caethweision yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y pwysicaf oedd gwrthryfel Nat Turner yn 1831, ond cafwyd rhai eraill hefyd, fel gwrthryfel Gabriel yn 1800, a'r gwrthryfel mwy difrifol a arweiniwyd gan Denmark Vasey yn 1822. Fodd bynnag, mae gwrthryfel Nat Turner yn sefyll allan am sawl rheswm. Ffrwydrodd ym mis Awst 1831 yn Swydd Southampton, Virginia ac roedd wedi dod i ben mewn llai na 24 awr. 70 caethwas yn unig oedd yn rhan ohono, ac fe laddwyd tua'r un nifer o wynion. Ond cafodd effaith ddramatig ar y modd yr edrychai llawer o Ddeheuwyr ar eu caethweision. Aeth nifer o daleithiau'r De ati i basio cyfreithiau oedd yn gwneud rhyddhau caethweision yn anos.

## Cysyniad allweddol

### Achosiad ac esboniad

**Cyn i chi ddarllen hwn**

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn gyfarwydd â phrosesau'r 'Sefydliad Priodol', sef y ffordd weddus o gyfeirio at gaethwasiaeth. Yn arbennig, dylech fod yn ymwybodol o dystiolaeth o wrthwynebiad, fel y 'Rheilffordd Danddaearol' neu wrthryfel Nat Turner yn 1831.

Roedd dysgu caethweision i ddarllen neu ysgrifennu yn cael ei wahardd mewn rhai taleithiau; roedd eraill, fel Georgia, yn mynnu bod caethwesion a ryddhawyd yn gadael y dalaith, sef gorchymyn oedd eisoes ar waith ar draws ardaloedd eang o'r De.

### Nat Turner (1800-31)

| | |
|---|---|
| **1800** | Gweledydd du, a anwyd yn gaethwas yn Swydd Southampton, Virginia. Daeth yn bregethwr ymhlith y caethweision, gan ddenu dilynwyr crefyddol oedd yn cyfiawnhau chwyldro yn erbyn meistri gwyn. |
| **21 Awst 1831** | Ar ôl gweld arwyddion y dylai lansio gwrthryfel, dechreuodd Turner a chwe arall ymgyrch ladd lle bu farw 40 o gaethfeistri a'u teuluoedd. Yn Jerwsalem, Virginia, daeth Turner a'i gang wyneb yn wyneb â llu o wynion, a chipiwyd nifer ohonynt; bu'r gweddill yn ymladd milwyr taleithiol a ffederal. |
| **Hydref 1831** | Cipiwyd Turner ac fe'i rhoddwyd ar brawf. |
| **11 Tachwedd 1831** | Crogwyd Turner. Cafodd cyfanswm o 55 o gaethweision gwrthryfelgar eu crogi. |

Er gwaetha'r braw a achosodd y gwrthryfeloedd hyn ymhlith caethfeistri, roedd gwrthryfeloedd yn hynod o brin. Fel y sylweddolodd Higginson, roedd y rhesymau am hyn yn syml ac yn gymhleth. Anaml iawn y gallai caethweision o wahanol blanhigfeydd gyfathrebu â'i gilydd, ac roedd y perchenogion yn sicrhau na allai hynny ddigwydd. Prin oedd y caethweision a wyddai rhyw lawer am yr ardal leol; fel arfer, byddai caethwas/gaethferch oedd angen symud y tu allan i'r ardal am unrhyw reswm yn cael trwydded. Golygai hyn ei bod bron yn amhosibl trefnu gwrthryfeloedd ar raddfa eang.




**Nat Turner a'i gang yn ystod gwrthryfel y caethweision, 1831**

Dysgodd y caethweision yn gyflym iawn fod gan y gwynion fonopoli llwyr ar rym. Hyd yn oed yn ystod gwrthryfel Turner, mae'n amheus iawn a oedd gan unrhyw un o'r gwrthryfelwyr arfau tanio. Felly, roedd hi'n hawdd eu cipio gan nad oedd ganddynt unrhyw fodd o'u hamddiffyn eu hunain. Yn ystod y cyfnod hwn, lladdwyd nifer helaeth o dduon a oedd yn amlwg heb unrhyw gysylltiad â'r gwrthryfel. Os oedd unrhyw bwrpas i'r llofruddiaethau hyn, fe'u bwriadwyd i frawychu'r caethweision lleol. Am yr un rheswm, rhoddwyd yr arweinwyr, yn cynnwys Turner ei hunan, ar 'brawf' (er nad oedd y dyfarniad erioed yn y fantol) a'u dienyddio'n gyhoeddus. Arwyddocâd gwirioneddol y gwrthryfel oedd iddo gadarnhau'r farn gyffredinol ymhlith caethweision bod ymdrechion o'r fath yn hollol ofer. Ychydig iawn o gaethweision a ymunodd â'r gwrthryfel, ac yn wir gwelwyd rhai'n cynorthwyo i'w sathru. Prin iawn oedd y caethweision a ymunodd â chyrch John Brown ar Harper's Ferry yn 1859, a phrin y byddai ei weledigaeth o 'weriniaeth ddu' yn Virginia yn denu caethweision oedd wedi gweld canlyniadau gwrthryfel 1831.

## Rheoli trwy wrthod hawliau dynol

Nid oedd yn rhaid i gaethfeistri boeni am wrthryfela agored yn aml iawn. Fel y mwyafrif o bobl sydd ag awdurdod dros eraill, roeddent yn awyddus i sicrhau nad oedd yn rhaid iddynt ddefnyddio grym arfog yn fwy mynych nag oedd ei angen. Yn hytrach, ceisiodd y rhan fwyaf o gaethfeistri sicrhau bod y caethweision yn ufuddhau iddynt yn awtomatig, ac na fyddai unrhyw syniad am wrthryfela yn dod i'w meddyliau.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny oedd sicrhau bod y caethweision yn cydsynio â'u statws. Roedd yn rhaid iddynt fod yn hollol ymwybodol o'u hisraddoldeb naturiol. Nid cwestiwn o seicoleg ymarferol yn unig mo hyn. Roedd iddo rym y gyfraith, fel y gwyddai pob caethwas/gaethferch.

Trwy wrthod unrhyw hawliau cyfreithiol i gaethweision, roedd yn pwysleisio nad oeddent yn addas i fod yn ddynion a gwragedd go iawn. Ni allai unrhyw gaethwas, beth bynnag oedd ei ddoniau, fyth ddianc rhag ffurf ar blentyndod cyfreithiol. Er enghraifft, roedd cod caethwasiaeth Louisiana 1824 yn benodol a manwl yn ei restr o hawliau a gâi eu gwrthod:

> Ni all y caethwas/gaethferch wneud unrhyw fath o gytundeb. Nid yw'n meddu ar ddim byd personol ac ni all drosglwyddo unrhyw beth mewn olyniaeth. Mae'r caethwas/gaethferch yn analluog i gyflawni unrhyw swydd gyhoeddus, neu ymddiriedaeth breifat; ni all fod yn diwtor, curadur, ysgutor na chyfreithiwr; ni all fod yn dyst mewn materion sifil na throseddol. Ni all fod yn rhan o unrhyw weithred sifil. Ni all caethweision briodi heb ganiatâd eu meistri, ac ni fydd eu priodasau'n esgor ar unrhyw rai o'r effeithiau sifil sy'n deillio o gontract o'r fath.

Un canlyniad amlwg i wrthod hawl caethweision i briodi oedd niwed difrifol i fywyd teuluol. Hyd yn oed pe caniateid i gaethweision briodi, roedd yn rhaid deall mai bodloni mympwy meistr neu feistres yn unig oedd hynny. Pe cynhelid gwasanaeth crefyddol, roedd yn rhaid ei addasu, a byddai'r pregethwr yn debygol o ddiweddu gyda'r geiriau, 'oni'ch gwahenir chi gan angau *neu bellter*'. Wrth gwrs, roedd cydnabod undebau o'r fath o fudd i'r meistri. Roedd caethweision a ystyriai eu hunain yn benteuluoedd yn llawer llai tebygol o wrthryfela. Mewn ffordd, roedd eu teuluoedd yn wystlon i'w hymddygiad da.

Roedd y bygythiad o gael eu gwerthu hefyd yn ffordd o gadw caethweision yn ufudd. Gallai bron pob caethwas/gaethferch ddisgwyl cael ei (g)werthu o leiaf unwaith yn ystod ei (h)oes. Y prif




**Munudau olaf John Brown**

reswm dros ddianc, yn ôl arsylwyr cyfoes, oedd yr awydd i gael partneriaid neu aelodau teuluol a oedd wedi'u gwerthu yn eu holau. Ar ben hynny, roedd caethweision yn aml yn dioddef dan law rheibwyr rhywiol gwyn, fel roedd nifer y **mylatos** a **cwadryniaid** yn tystio.

**Pwyntiau allweddol**

- Yn dilyn gwrthryfel Nat Turner, pasiodd nifer o'r taleithiau Deheuol gyfreithiau i'w gwneud yn anos i ryddhau caethweision.
- Roedd nifer o daleithiau yn mynnu bod pob caethwas/gaethferch a ryddhawyd yn ymadael â'r dalaith.
- Mewn rhai taleithiau, roedd dysgu caethweision i ddarllen neu ysgrifennu yn cael ei wahardd.
- Yn anaml iawn y gallai caethweision o wahanol blanhigfeydd gyfathrebu â'i gilydd, a sicrheid na allai hynny ddigwydd. Prin oedd y caethweision a wyddai rhyw lawer am yr ardal leol; fel rheol, byddai caethweision oedd angen symud y tu allan i'r ardal am unrhyw reswm yn cael trwydded.
- Dysgodd caethweision yn gyflym iawn bod gan y gwynion fonopoli llwyr, bron â bod, ar rym. Gan nad oedd ganddynt arfau tanio nac unrhyw ffordd arall o'u hamddiffyn eu hunain, roedd hi'n hawdd cipio gwrthryfelwyr.
- Ceisiodd caethfeistri sicrhau bod y caethweision yn cydsynio â'u statws. Roedd yn rhaid iddynt bob amser fod yn ymwybodol o'u hisraddoldeb naturiol.
- Roedd hawliau dynol yn cael eu gwrthod i gaethweision, e.e.:
  - yr hawl i ddal swydd gyhoeddus
  - yr hawl i briodi
  - roedd plant caethweision yn cael eu cymryd oddi arnynt a'u gwerthu (i fod yn gaethweision)
  - roedd caethferched yn aml yn cael eu cam-drin yn rhywiol dan law eu meistri
- Defnyddid trais yn rheolaidd i sicrhau bod caethweision yn ufudd i'w meistri, er enghraifft trwy eu chwipio, eu gwarthnodi neu eu hanffurfio am gamymddygiad real neu ddychmygol.
- Sicrheid ufudd-dod hefyd trwy annog caethweision i fynychu'r eglwys a glynu wrth werthoedd Cristnogol, a bodloni ar eu byd. Llwgrwobrwyid llawer o gaethweision gyda 'gwobrau' am ymddygiad da.

## Trais fel dull o reoli

Wrth gwrs, defnyddid cosbau corfforol hefyd i ddysgu caethweision i fod yn ufudd. Er gwaetha'r ffaith fod yna rai meistri caredig na chredent mewn chwipio, mae'n amlwg bod y mwyafrif helaeth o gaethweision wedi dioddef y profiad. Yn ei *Narrative*, mae **Frederick Douglass** yn cyfeirio droeon at gaethfeistri mileinig, fel Mr. Covey: 'Yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn honno, prin yr aeth wythnos heibio heb iddo fy chwipio. Roedd fy nghefn yn boenus fwy neu lai trwy'r amser. Y ffaith 'mod i'n lletchwith oedd yr esgus mwyaf cyffredin dros fy chwipio.'

Mae llawer o'r adroddiadau llafar am gaethwasiaeth, a gasglwyd yn yr 1930au ac sydd bellach wedi'u cyhoeddi gan Lyfrgell y Gyngres, yn cyfeirio'n fynych at gosbi corfforol. Ysgrifennodd plannwr mewn papur newydd Deheuol yn 1826: 'Ofn cosb yw'r egwyddor y mae'n rhaid i ni lynu ati a'i defnyddio, i'w cadw nhw [y caethweision] yn ufudd a threfnus.' Ond nid chwipio oedd y gosb waethaf y gallai caethwas/gaethferch ei goddef. Yn ôl yr hanesydd E. Genovese, er i **warthnodi** ac anffurfio ddod yn llai cyffredin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roeddent yn parhau i fodoli. Gellid hefyd ddal i ddefnyddio ysbaddu, naill ai fel cosb i ddynion mewn oed, neu i sicrhau bod bechgyn cyn oed aeddfedrwydd yn cydymffurfio yn y dyfodol.


## Dulliau rheoli llai treisgar

Roedd yna hefyd ffyrdd llai treisgar o sicrhau ufudd-dod y caethweision, na chaent eu beirniadu gan y cyhoedd. Roedd bron pob caethfeistr yn annog ei gaethweision i ddod yn Gristnogion gan fod ei neges o ymostyngiad i'r awdurdod mewn bod yn gyfrwng perffaith i annog caethweision i ufuddhau i'w meistri. Ychydig iawn o feistri oedd â llawer o ddiddordeb mewn diwinyddiaeth; roedd y rhan fwyaf o gaethweision yn Fedyddwyr neu'n Fethodistiaid, ond ni welai hyd yn oed berchenogion Pabyddol unrhyw reswm dros ymyrryd â dewis enwadol eu caethweision. Wrth gwrs, gallai hyn i gyd ôl-danio. Gallai pregethwr du ddatblygu carisma i gystadlu yn erbyn, neu hyd yn oed ragori ar garisma'r meistr; Nat Turner oedd yr enghraifft enwocaf o hyn. Ond prin oedd hyn yn digwydd. At ei gilydd, roedd pregethwyr du a gwyn fel ei gilydd yn annog caethweision i fodloni ar eu byd, a gobeithio am well triniaeth mewn rhyw fywyd tragwyddol.

Roedd yna hefyd elfen gref, a bron â bod yn gyffredin, o lwgrwobrwyo yn y ffordd roedd caethfeistri yn trin eu gweithwyr. Byddai gwleddau ac anrhegion yn gyffredin ar adegau pwysig fel y Nadolig a **4 Gorffennaf**. Rhoddid bwyd ychwanegol neu roddion ar derfyn y cynhaeaf. Pan oedd gofyn i gaethweision wneud gwaith ychwanegol, fel ar y Sul, sef y diwrnod gorffwys

traddodiadol i gaethweision, byddent yn aml yn derbyn rhyw fath o daliad.

Mewn gwirionedd, roedd pethau'n fwy anodd nag yr awgryma hyn. Roedd caethweision yn arbenigo ar droi breintiau yn hawliau, ac roedd y farn gyhoeddus ymhlith gwynion a hyd yn oed y llysoedd barn yn cefnogi hyn. Ond ni ddylai'r amhosibilrwydd gwirioneddol o rwystro caethweision rhag cael y breintiau arferol hyn gelu'r ffaith fod nifer o gaethfeistri yn ceisio'u gorau glas i'w defnyddio fel modd o gadw rheolaeth ar eu heiddo.



Peter Newark's Pictures

**Arwerthiant caethweision yn Richmond, Virginia, yn 1856**

Dull arall, haws o lawer, oedd i'r meistri greu rhaniadau ymhlith eu caethweision. Y dull mwyaf amlwg oedd creu 'gyrrwr', sef caethwas oedd â'r gwaith o sicrhau bod y gwaith yn y caeau yn cael ei gwblhau'n iawn. Gallai caethweision o'r fath, fel y rhai a oedd yn byw yn y 'tŷ mawr' ac yn gwneud y dyletswyddau domestig, yn hawdd ddod i'w huniaethu eu hunain yn agosach â'u meistri na'u cyd-gaethweision.

## Rhyddfreinio?

Er gwaethaf holl ymdrechion y meistri fodd bynnag, daeth dydd rhyddhau'r caethweision o'r diwedd. Bu tueddiad am flynyddoedd lawer, o fewn hanesyddiaeth Americanaidd a diwylliant y bobl, i leihau'r rôl a chwaraewyd gan y caethweision eu hunain yn eu rhyddfreiniad. Roedd tueddiad – a atgyfnerthwyd gan gofiannau parchus yn dilyn ei lofruddiaeth – i bortreadu Lincoln fel y **Rhyddhäwr Mawr**. Roedd diddymwyr gwynion eraill, fel William Lloyd Garrison, golygydd *The Liberator*, hefyd yn cael eu hystyried fel rhai a oedd wedi chwarae rôl allweddol yn y broses o ddileu caethwasiaeth yn derfynol.

Mae peth gwirionedd yn y gred hon, ond mae'n anwybyddu'r elfen bwysicaf oll – sef y caethweision eu hunain. Ceisiodd caethweision a chyn-gaethweision wneud popeth o fewn eu gallu i'w rhyddhau eu hunain ymhell cyn i'r Taleithiau Cydffederal ddymchwel yn 1865, hyd yn oed os dim ond nifer fechan a roddodd gynnig ar y gwrthsafiad eithaf, sef gwrthryfel arfog. Roedd rhedeg ymaith yn llawer mwy cyffredin, er bod hyn wedi dod yn fwy anos ar ôl **Cyfaddawd 1850**, a oedd yn atgyfnerthu Deddf Caethweision Ffoadurol 1793. A dim ond yr enwocaf o'r holl ddynion a gwragedd a helpodd i drefnu'r **Rheilffordd Danddaearol** yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Cartref oedd Harriet Tubman.

Wrth ysgrifennu yn ei hunangofiant, *Up From Slavery* yn 1901, mynnodd Booker T. Washington: 'Mae'n bosibl fod gan rai'r syniad nad oedd pob caethwas/gaethferch am gael ei r(h)yddhau. Nid yw hyn yn wir. Nid wyf erioed wedi gweld un nad oedd arno/i eisiau bod yn rhydd, neu un oedd am ddychwelyd at gaethwasiaeth.' Cytunodd eraill, gan dynnu sylw at y rôl a chwaraewyd gan gyn-gaethweision – yn ogystal â phobl liw rydd – yn gwirfoddoli ar gyfer gwasanaeth milwrol yn ystod y Rhyfel Cartref. Recriwtiwyd Catrawd Gyntaf De Carolina yn 1862 ac roedd y mwyafrif helaeth o'r aelodau yn gyn-gaethweision, a dilynwyd honno'n gyflym gan Ail Gatrawd De Carolina a Chatrawd 54 Massachusetts. Cadlywydd Catrawd Gyntaf De Carolina oedd Higginson, y cyfeiriwyd ato ar ddechrau'r erthygl hon. Ysgrifennodd hyn: 'Allwn i ddim perswadio'r un [caethwas/gaethferch], yn ei (h)awr fwyaf anfodlon, i hiraethu eiliad am "yr hen amser gyda'r meistr". Ni chlywais i erioed yr un ohonynt yn siarad am y meistri ond fel gelynion naturiol.'

Wrth ysgrifennu yn 2003, nododd yr hanesydd Ira Berlin fod caethwasiaeth wedi dymchwel o dan daraniadau milwyr ffederal o'r tu allan a gwaith dynion a gwragedd duon caeth y planhigfeydd yn ei danseilio oddi mewn. Roedd efallai yn deyrnged i'r caethweision ei bod wedi profi'n amhosibl llethu eu hymlyniad wrth y syniad o ryddid, er gwaethaf holl ymdrechion eu meistri.

## Gwrthryfeloedd Caethweision

**Gwrthryfel Gabriel (1800)**
Taeog Americanaidd oedd Gabriel Prosser a gynlluniodd wrthryfel mawr cyntaf y caethweision yn hanes yr Unol Daleithiau (30 Awst 1800). Er i'r gwrthryfel fethu, tyfodd ofn y gwynion o'r caethweision ledled y De.

Roedd Gabriel yn cynllunio gwrthryfel caethion, gyda byddin o 1,000 o gaethweision, er mwyn creu talaith ddu annibynnol yn Virginia. Ar ôl lladd yr holl wynion heblaw am Ffrancwyr, Methodistiaid a Chrynwyr, byddai ef yn frenin.

Cafodd y Llywodraethwr James Monroe wybod am y cynllwyn a rhoddodd orchymyn i filisia'r dalaith eu cipio. Arestiwyd Gabriel a thua 34 o'i gymdeithion, ac fe'u crogwyd ar ôl iddynt sefyll eu prawf.

**Gwrthryfel Denmark Vesey (1822)**
Yn gyn-gaethwas ac yn **ddiddymwr**, roedd â'i fryd ar ryfel go iawn, gyda chaethweision arfog yn lladd caethfeistri gwynion yn ninas Charleston, De Carolina.

Erbyn 1822, ac ar ôl cynllunio am sawl blwyddyn, cafodd syniad Vesey i ymosod ar y ddinas a'i 'rhyddhau' ei ddatgelu. Gorfodwyd un o'i gymdeithion i gyffesu, ac fe arweiniodd hynny at arestio Vesey a llawer o'i gyd-gynllwynwyr. Wedi sefyll eu prawf, fe'u crogwyd i gyd.

Wedi hynny, pasiodd De Carolina ddeddfau yn gwahardd pobl dduon rhydd rhag cael mynediad i'r dalaith.

**Cyrch John Brown (1859)**
Roedd John Brown yn ymgyrchwr gwrthgaethwasiaeth carismatig a thanboeth, ac fe'i hanfarolwyd yn y gân boblogaidd ***John Brown's Body***.

Arweiniodd Brown gyrch aflwyddiannus ar y storfa arfau ffederal yn Harper's Ferry, Virginia. Ei fwriad oedd i hyn fod yn alwad i uno mewn gwrthryfel caethweision enfawr, ond nid ymunodd unrhyw gaethweision ag ef. Ystyrir y cyrch hwn, ynghyd â dienyddiad Brown, yn un o brif achosion tymor byr y Rhyfel Cartref.

### DIFFINIADAU:

**catrawd Undeb**: llu milwrol o tua 1,500, pan, yn yr achos hwn, roeddent yn ymladd dros yr Undeb (Gogledd)

**mylato (mylatos)**: plentyn rhieni gwyn a du, gan amlaf yn lliw rhwng y ddau.


Peter Newark's Pictures

**Harriet Tubman**

**cwadrŵn (cwadryniaid)**: plentyn mylato a rhiant gwyn (chwarter du a thri-chwarter gwyn).

**Frederick Douglass (1817-95)**: cyn-gaethwas ac ymgyrchwr gwrthgaethwasiaeth enwog.

**gwarthnodi**: llosgi nod y meistr ar gnawd caethwas/gaethferch â haearn poethgoch.


**4 Gorffennaf**: Diwrnod Annibyniaeth America

**Y Diddymwr Mawr**: llysenw a roddwyd i Abraham Lincoln, Arlywydd yr UD, am ei ddatganiad yn 1862 oedd yn rhyddhau holl gaethweision America.

**diddymwyr**: y rhai oedd yn ymgyrchu i ddiddymu caethwasiaeth.

**Cyfaddawd 1850**: cytundeb rhwng taleithiau'r Gogledd a'r De a oedd yn caniatáu i California ymuno â'r Undeb fel talaith rydd, ond a oedd hefyd yn darparu mwy o gydweithrediad yn y gwaith o ddod o hyd i gaethweision ar ffo.

**Rheilffordd Danddaearol**: rhwydwaith cudd o 'dai diogel' oedd yn cael eu rhedeg gan ddiddymwyr i helpu caethweision ar ffo i ddianc i ddiogelwch yng Nghanada.



Peter Newark's Pictures

**Booker T. Washington**

## Booker T. Washington (1856-1915)

Cyn-gaethwas a dadleuwr o blaid addysg i Americanwyr duon.

Fe'i haddysgwyd yn Sefydliad Hampton, Norfolk, Virginia. Ef oedd y prif lefarydd Affricanaidd-Americanaidd yn llygaid America wen.

Dechreuodd ei waith yn Sefydliad Tuskegee yn 1881 ac fe'i hadeiladodd yn ganolfan dysg a hyfforddiant diwydiannol ac amaethyddol.

Ysgrifennodd ei hunangofiant, *Up From Slavery*, yn 1901, a gwerthodd fel pys.

Roedd Washington yn areithiwr grymus, yn wleidydd medrus, ac roedd ganddo rym a dylanwad yn y cymunedau du a gwyn fel ei gilydd. Bu'n ymgynghorydd cyfrinachol i arlywyddion.

Er ei fod yn gymodwr, siaradodd yn glir yn erbyn lynsio a gweithiodd i wneud cyfleusterau 'ar wahân' yn fwy 'cydradd', tra'n cynghori Americanwyr Affricanaidd i gydymffurfio â chodau arwahanu.

## Cwestiynau

- Sut geisiodd y gwynion gael y duon i dderbyn eu safle fel caethweision?
- I ba raddau mae'n deg dweud bod caethwasiaeth y De yn seiliedig ar ofn?
- Mae dysgeidiaeth Gristnogol yn nodi'n glir fod pawb yn gydradd yng ngolwg Duw. Pam, felly, roedd caethfeistri gwyn yn annog eu caethweision i ddod yn Gristnogion?
- Ym mha ffyrdd mae'n deg dweud bod caethweision wedi cyfrannu at eu rhyddfreiniad eu hunain erbyn dechrau'r Rhyfel Cartref?

***Nicolas Kinloch*** yw Pennaeth Hanes Ysgol a Choleg Chweched Dosbarth Netherhall, Caergrawnt. Ef hefyd yw cyd-olygydd *Teaching History* a *Hindsight*, ac mae'n cyfrannu'n gyson i'r *BBC History Magazine*.

## Astudiaeth Bellach

Douglass. F. (1982) *Narrative of the Life of Frederick Douglass, an American Slave*, Penguin.

Genovese, E.D. (1975) *Jordan Roll: The World the Slaves Made*, Deutsch.

Greenberg, K. (ed) (2003) *Nat Turner: A Slave Rebellion in History and Memory*, Oxford University Press.

Higginson, T.W. (1997) *Army Life in a Black Regiment and Other Writings*, Penguin.

Heuman, G. and Walvin, J. (eds) (2003) *The Slavery Reader*, Routledge.

Jacobs, H. A. (1987) *Incidents in the Life of a Slave Girl*, Harvard.

Oakes, J. (1990) *Slavery and Freedom*, Vintage.

Stampp, K. M. (1964) *The Peculiar Institution: Negro slavery in the American South*, Eyre and Spottiswoode.

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Philip Allan Updates o *Modern History Review*, Cyfrol 16, Rhif 1, Medi 2004: *Control and rebellion in the Old South*, Nicolas Kinloch.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

**Golygydd**: Gwenda Lloyd Wallace
**Dylunydd**: Richard Huw Pritchard
**Cyfieithydd**: Lydia Jones

Diolch i Robin Evans, Nia Goode, Carole Bryan James a Geraint Jones (y monitoriaid) am eu harweiniad gwerthfawr.